DWP Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad ar Raglenni Cyflogaeth Arbenigol i Bobl Anabl

## Crynodeb byr

Cred y Llywodraeth fod cael cyflogaeth gwerth chweil yn rhan bwysig o gyflawni ein potensial. Ni ddylai anabledd olygu bod rhwystrau i hyn.

Roedd adolygiad annibynnol Liz Sayce – "Getting in, staying in and getting on" – yn cynnwys ystod eang o argymhellion ar gyfer diwygio rhaglenni cyflogaeth arbenigol i bobl anabl. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhaglenni hyn yn ystod mis Gorffennaf 2011 ac fe'i cwblhawyd ym mis Hydref 2012. Cafwyd ymatebion gan bobl anabl, sefydliadau sy'n cynnwys pobl anabl a sefydliadau ar gyfer pobl anabl, a darparwyr gwasanaethau cyflogaeth.

Roedd y mwyafrif helaeth o blaid y thema ganolog y dylai adnoddau i gynorthwyo pobl anabl i gael swyddi ganolbwyntio ar y bobl anabl eu hunain yn hytrach nag ar sefydliadau. Roedd cefnogaeth eang i roi gwell dewis a rheolaeth i bobl anabl.

Mae Maria Miller, y Gweinidog dros Bobl Anabl, wedi cadarnhau dro ar ôl tro y caiff y gyllideb ar gyfer cymorth cyflogaeth arbenigol i bobl anabl ei diogelu. Mae'r Llywodraeth am sicrhau y caiff cymorth cyflogaeth arbenigol ei ddefnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn deg i gynorthwyo mwy o bobl anabl nag erioed o'r blaen i gael swyddi prif ffrwd gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r egwyddor o symud tuag at ariannu anghenion unigolion yn hytrach nag ariannu gweithleoedd neu gyfleusterau penodol. Rydym eisoes yn gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr rhaglenni cyflogaeth, pobl anabl, sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a sefydliadau cynrychioliadol i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni'r dyhead hwn.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn gweithredu argymhellion Sayce ar ddiwygio Remploy. Bydd Remploy yn dechrau cynnal ymgynghoriad cyfunol ar y bwriad i gau ffatrïoedd nad ydynt yn debygol o allu cyflawni hyfywedd ariannol annibynnol ym marn Bwrdd Remploy (yn amodol ar ymgynghoriad â chynrychiolwyr cyflogeion). Yn ystod yr ymgynghoriad, bydd cyflogeion Remploy yn gallu cyflwyno cynigion mewn perthynas ag unrhyw agweddau hyfyw ar fusnesau nad ydynt yn hyfyw, ynghyd â chynigion ar gyfer osgoi unrhyw ddiswyddiadau gorfodol a allai ddeillio o hyn.

Gwarentir y bydd unrhyw gyflogeion Remploy y bydd newid posibl yn effeithio arnynt yn cael pecyn cymorth unigol.

Bydd y Llywodraeth yn ailgylchu adnoddau sydd ar gael a ryddheir gan Remploy i wella rhaglenni fel Mynediad at Waith. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn galluogi mwy o bobl anabl i gael gwaith a'i gadw. Cam nesaf y diwygiadau hyn fydd cyfnod o gyd-gynhyrchu gyda phobl anabl i alluogi'r Llywodraeth i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer darpariaethau yn y dyfodol.

Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno rhai mesurau ar unwaith mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, marchnata wedi'i dargedu ar gyfer Mynediad at Waith fel bod grwpiau a dangynrychiolir yn gallu cymryd rhan yn haws. Byddwn yn targedu cyflogwyr bach a phobl ifanc – y rheini sy'n gadael addysg a'r rheini sydd eisoes yn chwilio am waith – i sicrhau eu bod yn fwy ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael.

Bydd y Llywodraeth yn archwilio'r ffordd orau o ariannu a defnyddio'r gwasanaethau arbenigol a gynigir gan Golegau Hyfforddi Preswyl. Wrth i'r Llywodraeth ystyried beth yw'r cam gorau i'w gymryd, a sut i gynorthwyo'r colegau drwy unrhyw gyfnod o drawsnewid, mae'r Gweinidog dros Bobl Anabl wedi ymrwymo darpariaeth ariannol hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd sy'n dod i ben yn ystod haf 2013.

Mae'r Llywodraeth am sefydlu system o gymorth cyflogaeth arbenigol sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni dyheadau pobl anabl nawr ac yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at gael cymorth pobl anabl wrth i ni ymgymryd â'r gwaith hwn.